OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 No. 1988

Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ardal benodedig" ("*specified area*") yw'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cocos" ("*cockles*") yw unrhyw bysgod cregyn o'r math *Cerastoderma edule*;

ystyr "cregyn gleision" ("*mussels*") yw unrhyw bysgod cregyn o'r math *Mytilus edulis*;

ystyr "cwch pysgota Prydeinig" ("*British fishing boat*") yw cwch pysgota sydd naill ai wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(**1**) neu sydd dan berchnogaeth lwyr personau sy'n gymwys i fod yn berchnogion llongau Prydeinig at ddibenion y Rhan honno o'r Ddeddf honno;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**);

ystyr "pysgod cregyn penodedig" ("*specified shellfish*") yw cocos a chregyn gleision;

ystyr "trwydded" ("*permit*") yw trwydded a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn; ac

ystyr "Tystysgrif Hyfforddiant Diogelwch Casglwyr Blaendraeth" ("*Foreshore Gatherers Safety Training Certificate*") yw dogfen a ddyroddwyd gan Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr, sy'n ardystio bod y ceisydd wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs hyfforddiant diogelwch ar gyfer pysgota rhynglanwol am bysgod cregyn.

(**1**) 1995 p.21.
(**2**) 2006 p.32.